# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 22.11.07

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr J.R.Jones (Cadeirydd); Gwilym Williams; Bill Lovelock

**Hefyd yn bresennol:** Gareth W.Jones (Uwch Reolwr Gweinyddol a Chyfreithiol), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu) a Barbara Owen (Swyddog Pwyllgor).

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:** Mr MPS; (Ymgeisydd)

**Ymddiheuriad:** Y Cynghorydd Tomos Evans

**CAIS AM DRWYDDED PERSONOL: Mr. MPS**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu ar gais Mr. MPS am Drwydded Bersonol i ganiatáu gwerthu alcohol. Eglurodd y swyddog mai'r rheswm dros gyflwyno'r cais i sylw'r Is-bwyllgor yw bod Datganiad Troseddau'r ymgeisydd yn dangos trosedd yn ei erbyn.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Cyflwynwyd adroddiad yr Adain Drwyddedu gydag argymhelliad
ii. rhoddwyd cyfle i aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor;
iii. rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor;
iv. rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd ymhelaethu ar ei gais
v. gwahoddwyd aelodau'r is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd;
vi. rhoddwyd cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd roi crynodeb o'r achos.

Wrth ymhelaethu ar ei gais, rhoddodd yr ymgeisydd gefndir y drosedd er gwybodaeth, sef bod gwraig wedi ymosod ar wraig yr ymgeisydd wrth aros am dacsi yn dilyn parti priodas, ac o ganlyniad i'r ymgeisydd fynd i amddiffyn ei wraig, cyhuddwyd ef o ymosod ar y wraig arall. Gan ei fod yn heddwas, daethpwyd ag achos yn ei erbyn a chafodd ei gosbi. Derbyniwyd llythyr gan Uwch Arolygydd yr Heddlu yn datgan nad oes gwrthwynebiad i'r cais.

Trafodwyd y cais gan ystyried pedwar egwyddor y Ddeddf Drwyddedu 2003.

**PENDERFYNWYD:**

**i) caniatau Trwydded Bersonol i Mr MPS**

Dechreuodd y cyfarfod am 11.30am a daeth i ben am 11.40 am.